Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Trin a rheoli defaid cloff - cyngor defnyddiol

Mae sawl peth yn achosi cloffni mewn defaid, ac felly bydd diagnosis cywir yn gwneud triniaeth yn fwy llwyddiannus. Os oes gennych amheuon, mynnwch air â milfeddyg defaid profiadol.

**Rhowch driniaeth fuan** – mae astudiaethau ar sawl fferm ddefaid yn y DG wedi dangos os yw clwy'r traed yn cael ei drin â phigiad a chwistrelliad o wrthfiotigau o fewn 3 diwrnod i ymddangosiad y cloffni (waeth pa mor ysgafn), bydd yn gwella'r symptomau ac yn lleihau nifer yr achosion o glwy'r traed yn y ddiadell. Fel arfer, bydd triniaeth hwyrach yn gwella'r anifail unigol, ond ni fydd yn fanteisiol i'r ddiadell gyfan. Gall fod yn anodd trin anifeiliaid ar unwaith, ond mae'n bwysig dros ben eich bod yn gwneud hynny.

**Ystyriwch gloffni yn glefyd heintus** oni bai fod diagnosis yn dangos yn wahanol (e.e. carnau cregynnog, crawniadau). Felly, peidiwch â chrynhoi defaid neu adael iddynt sefyll gyda'i gilydd.

**Cadwch ddefaid cloff ar wahân i weddill y ddiadell.** Cadwch lygad agos arnynt a'u hail-drin yn rheolaidd. Cyn eu rhoi'n ôl gyda gweddill y ddiadell, gwnewch yn siŵr eu bod yn holliach a rhowch faddon traed iddynt.

**Gwaredwch ddefaid sy'n gloff yn fynych** (Pennwch eich rheolau a glynwch wrthynt. Er enghraifft, os ydych wedi trin mamog fwy na dwywaith, dylech gael gwared â hi). Mae defaid o'r fath yn heintio gweddill y ddiadell. Peidiwch â chadw epil defaid cloff ar gyfer bridio.

**Ystyriwch frechu ar gyfer clwy'r traed**



**Bwydwch y defaid ar lawr caled neu symudwch y bwydwyr yn rheolaidd er** mwyn atal sathru a halogi'r ddaear. Dylid cadw'r siediau'n sych drwy'r amser trwy osod gwellt glân yn rheolaidd.

**Defnyddiwch faddon traed cyn symud defaid i borfa ffres** lle na fu defaid yn pori am bythefnos, neu dan do - OS oes gennych gyfleusterau priodol.

**I ddefnyddio baddon traed mae angen man sych a glân (llawr concrid) i grynhoi'r defaid a lle gallant sefyll** ar ôl bod trwy'r baddon. Dylai'r traed fod yn lân cyn mynd i'r baddon – yn ddelfrydol, dylid golchi eu traed mewn baddon dŵr cyn y driniaeth.

**Gwnewch yn siŵr fod y cemegau'n cael eu teneuo'n gywir** – 2.5 to 3% fformalin neu 10% sylffad sinc. Mae defaid cloff yn annhebygol o roi eu traed heintus yn y baddon!



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government